OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1147 (Cy.155)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *24 Ebrill 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *25 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 157 o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac adran 17 o Ddeddf Tai 1996(**2**), ac ar ôl ymgynghori, yn unol ag is-adran (6) o adran 17 o Ddeddf Tai 1996, â'r awdurdodau lleol a'r cyrff a grybwyllir yn yr is-adran honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 25 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio

**2.** Diwygir Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003(**3**) yn unol â'r hyn a nodir yn erthyglau 3, 4, a 5 isod.

### Erthygl 1

**3.** Yn Erthygl 1 yn lle “2002” rhowch “2003”.

### Erthygl 2

**4.** Ar ddiwedd Erthygl 2 ychwanegwch:

(**1**) 1985 p.68; *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**2**) 1996 p.52; Gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 2003/54(Cy.5)

"yn ogystal ag, yn achos adran 17(1)(b), yr holl gymunedau a rhannau o gymunedau sydd o fewn Parc Cenedlaethol neu o fewn ardal a ddynodir o dan adran 82 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ardal o harddwch naturiol eithriadol.".

**Atodlen**

**5.** Yn y fersiwn Gymraeg o'r Atodlen o dan y pennawd "Ym Mwrdeistref Sirol Rhondda, Cynon, Taf" yn lle "Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Gwyr" rhowch "Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*J E Randerson*
Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

24 Ebrill 2003

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 157 o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985"), os yw trawsgludiad neu grant yn cael ei gyflawni yn unol â Rhan V o Ddeddf 1985 (yr hawl i brynu) gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai (y landlord) a bod y tŷ annedd hwnnw wedi'i leoli mewn:

— Parc Cenedlaethol,

— ardal sydd wedi'i dynodi o dan adran 82 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ardal o harddwch naturiol eithradol, neu

— ardal sydd wedi'i dynodi drwy orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru yn ardal wledig,

fe all y trawsgludiad neu'r grant gynnwys cyfamod sy'n cyfyngu ar hawl y tenant i werthu'r tŷ annedd yn y modd a nodwyd yn yr adran honno.

O dan adran 16 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") mae gan denant landlord cymdeithasol cofrestredig hawl mewn amgylchiadau penodol i gaffael yr annedd y mae ef neu hi yn byw ynddi. Mae hyn yn ddarostyngedig i adran 17 o Ddeddf 1996 sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol drwy orchymyn i ddynodi ardaloedd gwledig mewn perthynas ag anheddau lle na fydd yr hawl sy'n cael ei rhoi gan adran 16 yn codi.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003 sy'n dynodi ardaloedd gwledig at ddibenion adran 157 o Ddeddf 1985 ac adran 17 o Ddeddf 1996 drwy gywiro'r ffaith fod Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithradol wedi'u hepgor o ran yr ardaloedd hynny a ddynodir o dan adran 17.